| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD:** | **30 IONAWR 2014** |
| **TEITL:** | **GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **ADRODD AR GYNNYDD O SAFBWYNT GWEDDARLLEDU CYFARFODYDD A MYNYCHU O BELL** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD DROS DRO** |

1.0 **Cefndir**

1.1 Fe fydd Aelodau yn ymwybodol i'r Pwyllgor ystyried adroddiad ynglyn â gweddarlledu cyfarfodydd a mynychu o bell ar y 1af o Hydref 2013. Penderfynwyd argymell i'r Cyngor:

*'Symud ymlaen i weddarlledu cyfarfodydd am gyfnod arbrofol o ddwy flynedd er mwyn defnyddio Cyllid Llywodraeth Cymru'*

*Mai cyfarfodydd y Cyngor Sir llawn, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion fydd y cyfarfodydd fydd yn cael eu gweddarlledu fel rhan o'r cynllun peilot;*

*Rhoi'r awdurdod i Bennaeth Dros Dro Gwasanaethau Democratiadd a'r Rheolwr TGCh i brynu'r offer angenrheidiol yn seiliedig ar ddatrysiad wedi ei letya;*

*Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â mynediad o bell fel y manylir arni yn yr adroddiad.*

1.2 Yn ei gyfarfod ar y 10 Hydref penderfynodd y Cyngor y dylid canlyn ymlaen gyda Gweddarlledu cyfarfodydd am gyfnod peilot o 2 flynedd.

1.3 Yn dilyn proses tendro gystadleuol sicrhawyd darpariaeth gweddarlledu wedi ei letya. Cwmni Public-i fydd yn ei reoli. Mae'r cytundeb yn seiliedig ar ddarlledu cyfanswm o 90 awr o gyfarfodydd sy'n rhan o'r peilot yn flynyddol. Efallai y bydd cyfle fel rhan o'r peilot i ddarlledu cyfarfodydd eraill sydd o ddiddordeb cyhoeddus er mwyn gwneud defnydd llawn o'r oriau sydd ar gael ar gyfer gweddarlledu, petai angen.

2.0 **Rhaglen Cyflwyno**

2.1 Bydd angen cyfnod i dreialu y system cyn darlledu cyfarfodydd yn fyw er mwyn ymgyfarwyddo Aelodau a Staff. Bydd y cwmni yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth barhaus i'r Cyngor. Bydd Staff o'r Gwasanaethau Democrataidd yn darparu cefnogaeth a'r Adain Technoleg Gwybodaeth yn darparu cefnogaeth prosiect a thechnegol.

Awgrymir yr amserlen canlynol ar gyfer gweddarlledu:-

| **Tasg** | **Erbyn** |
|---|---|
| Gosod offer yn Siambr y Cyngor | 18 – 22 Chwefror |
| Hyfforddiant i Aelodau a Staff ar y system gweddarlledu Public-i | Bwriedir yn ystod wythnos yn dechrau 24 Chwefror |
| System yn weithredol | Bwriedir yn ystod wythnos yn dechrau 3 Mawrth |

2.2 Bwriedir cychwyn y cynllun peilot drwy weddarlledu y Pwyllgor Gwaith ar y 17 Mawrth ac yna cyfarfodydd eraill i ddilyn.

3.0 **Mynediad o Bell**

3.1 Disgwylir i Lywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau terfynol cyn ddiwedd y mis hwn. Bydd angen adrodd i'r Pwyllgor Gwaith a'r Cyngor Sir gan y bydd angen newid y Cyfansoddiad.

4.0 **Argymhellion**

i) Nodi'r cynnydd fel y manylir yn yr adroddiad a dechrau gweddarlledu ym Mawrth 2014 (para 2.2).

ii) Nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ynglŷn â mynediad o bell (para 3.1).

**Huw Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dro Dro**
**21/01/14**